# SCHOOL IN-REACH SERVICE NEWSLETTER

## IN THIS ISSUE

- A thank you
- Future plans
- Autumn training
- Team highlights

## ANNA FREUD RESOURCES

**'Let's talk about anxiety' resource**

With the transition into a new academic year approaching, this animation, and accompanying resources for school staff, can support learners aged 11 to 13 to normalise, understand and manage anxious feelings.

**#SelfCareSummer packs**

for children, young people and staff in primary and secondary schools.

## THANK YOU!

A huge thank you to all our partners in education settings for your work with us this academic year. As a team we are always inspired by the care, compassion, and support you offer to the learners in your schools and settings.

## FUTURE PLANS

The summer holidays will be our opportunity to take time to reflect together as School In-Reach Service. We will be reviewing our progress so far and working on service development as a team.

We look forward to starting September with a more in-depth newsletter sharing details on what we have been working on and updates on our offer to education settings for 2023-2024.

## END OF YEAR EVALUATION

As a service, we wanted to thank you for taking the time to complete our service evaluation form. We received an incredible response and have really enjoyed reading through your thoughts, opinions and perspectives! Over the summer we plan to use the data to review our service, get creative with our training packages and adapt to meet the needs of your schools! The feedback has put a smile on our faces and we're looking forward to taking these next steps together!

"They have been an amazing addition to our wellbeing intervention graduated response and have become part of the school community"

"The staff have both been very professional, easy to chat to, adaptable and understanding of the needs of the school at all times."

# AUTUMN TRAINING

We have allocated training dates for the Autumn term 2023, which can be booked onto in advance. Our open access online training programme is freely available to all education staff across Cardiff and the Vale. We are very much looking forward to integrating more face-to-face training packages.

If you are interested in training for whole staff groups or targeted staff in your individual setting, please discuss with your locality lead in your prioritisation meeting.

**Here is our open access online training programme for next term, available to all education staff across Cardiff and the Vale.**

| DATE | TIME | TITLE OF TRAINING |
|---|---|---|
| Wednesday 20/9/2023 | 13:00-16:00 | Managing Endings and Transitions Well (In-person Workshop - Woodland House, Cardiff)* |
| Monday 2/10/2023 | 15:30-17:00 | Safety Planning for Education Staff |
| Thursday 17/10/2023 | 15:30-17:00 | Managing Stress |
| **HALF TERM** | | |
| Tuesday 7/11/2023 | 15:30-17:00 | Embedding PACE in the Classroom |
| Monday 13/11/2023 | 13:30-16:30 | Tree of Life (In-person Workshop - Cardiff venue TBC)* |
| Monday 27/11/2023 | 15:30-17:00 | Managing and Responding to Self-Harm |

* We are hosting in-person training with a maximum of 18 attendees, sign up quick so not to miss out!

# REGISTRATION DETAILS

To book a place or for more information on each of the training sessions, please complete the Microsoft form by following the link below.

There are limited spaces available on each, so please book in advance. Joining details will be emailed to attendees prior to the date of the training.

**Sign up here:** https://forms.office.com/e/KH8jJhYgSE

or scan the QR code

SCHOOL IN-REACH SERVICE GWASANAETH MEWNGYMORTH YSGOLION

Emotional Wellbeing & Mental Health Lles Emosiynol ac Iechyd Meddwl

CYPF Children, Young People & Family Health Services

PPIT Gwasanaethau Plant, Pobl Ifanc ac Iechyd Teuluol

GIG CYMRU NHS WALES Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro Cardiff and Vale University Health Board

# TEAM HIGHLIGHTS

I have loved my first few months working in School In-Reach. I've met such compassionate school communities, truly inspiring young people, and work alongside a brilliant and dedicated team. I'm really looking forward to meeting, getting to know and joining with, more of you in the next school year.

**Dr Rhian Murphy**
Clinical Lead

## CARDIFF EAST
Natalie, Kirsty & Emma

Cardiff East team would like to thank all of our schools for working with us over this last academic year. It's been a positive time for establishing close relationships and really getting to know how we can best be of support. A key part of our work has been linking up with other professionals in your schools including the educational psychologists, specialist teachers and school nurses. We have also really enjoyed running a number of group interventions with young people across our East schools in addition to the individual work we have done. We hope you all have a relaxing and restorative summer and look forward to continuing our work with you next year.

For us, we're so grateful for how our schools have welcomed us and made it feel like we're a part of the team. We've loved getting to know both pupils and staff and want to thank you for trusting us to have a place in your schools. We are looking forward to another academic year with you after we have all re-charged!

## CARDIFF WEST
Vicky, Elen & Hayley

This past academic year has been a stimulating and busy one for the Valers. We've enjoyed building new links and developing lots more contacts and good working relationships within the schools and the wider network of education staff. We have loved our direct work with young people and seen some good outcomes as well as seeing the peer mentor pilot continue into fruition. We look forward to bigger and better next year.

## VALE OF GLAMORGAN
Angie, Carolyn & Leanne

We've been humbled by how openly we have been welcomed by each provision and the uniqueness of each setting. We have valued the openness, honesty and vulnerability that has been shared in respect of considering the needs of not only the learners but also their families. We have witnessed dedication in abundance and a desire to upskill teams as well as holding the emotional wellbeing of staff as an integral part of their ethos. We look forward to working together on new developments and alongside each other in the new school term.

## PRU/EOTAS
Lisa, Elin & Chloe

Visit www.cavyoungwellbeing.wales
for Emotional Wellbeing and Mental Health information and resources for children, young people, parents and professionals.

# CYLCHLYTHYR Y GWASANAETH MEWNGYMORTH YSGOLION

## YN Y RHIFYN HWN

- Diolch
- Cynlluniau'r Dyfodol
- Hyfforddiant yr Hydref
- Uchafbwyntiau'r Tîm

## ADNODDAU ANNA FREUD

**Adnodd 'Gadewch inni siarad am orbryder'.**

Gyda'r flwyddyn academaidd newydd yn agosáu, mae'r animeiddiad hwn, a'r adnoddau cysylltiedig i staff ysgol, yn gallu cefnogi dysgwyr 11 i 13 oed i normaleiddio, deall a rheoli teimladau o orbryder.

**Pecynnau '#HafHunanOfal'** ar gyfer plant, pobl ifanc a staff mewn ysgolion cynradd ac uwchradd.

## DIOLCH!

Diolch yn fawr iawn i'n holl bartneriaid mewn lleoliadau addysg am eich gwaith gyda ni yn y flwyddyn academaidd hon. Fel tîm, rydym bob amser yn cael ein hysbrydoli gan y gofal, y tosturi a'r gefnogaeth rydych yn eu cynnig i'r dysgwyr yn eich ysgolion a'ch lleoliadau.

## CYNLLUNIAU'R DYFODOL

Gwyliau'r haf fydd ein cyfle i dreulio amser yn myfyrio gyda'n gilydd fel Gwasanaeth Mewngymorth Ysgolion. Byddwn yn adolygu ein cynnydd hyd yma ac yn gweithio ar ddatblygu'r gwasanaeth fel tîm.
Rydym yn edrych ymlaen at ddechrau mis Medi gyda chylchlythyr manylach yn rhannu manylion am yr hyn rydym wedi bod yn gweithio arno a'r wybodaeth ddiweddaraf am ein cynnig i leoliadau addysg ar gyfer 2023-2024.

## GWERTHUSIAD DIWEDD Y FLWYDDYN

Fel gwasanaeth, roeddem am ddiolch i chi am roi o'ch amser i gwblhau ein ffurflen gwerthuso gwasanaeth. Cawsom ymateb anhygoel ac rydym wedi mwynhau darllen eich meddyliau, eich barn a'ch safbwyntiau! Dros yr haf rydym yn bwriadu defnyddio'r data i adolygu ein gwasanaeth, i fod yn greadigol gyda'n pecynnau hyfforddiant ac i addasu i fodloni anghenion eich ysgolion! Mae'r adborth wedi rhoi gwên ar ein hwynebau ac rydym yn edrych ymlaen at gymryd y camau nesaf hyn gyda'n gilydd!

> "Maen nhw wedi bod yn ychwanegiad anhygoel i'n hymateb graddedig ar gyfer ymyrraeth lles ac wedi dod yn rhan o gymuned yr ysgol"

> Mae'r staff wedi bod yn broffesiynol iawn, yn hawdd siarad â nhw ac yn hyblyg, ac maen nhw wedi deall anghenion yr ysgol bob amser.

# HYFFORDDIANT YR HYDREF

Rydym wedi trefnu dyddiadau hyfforddiant yn nhymor Hydref 2023 - gallwch gadw lle arnynt ymlaen llaw. Mae ein rhaglen hyfforddiant ar-lein mynediad agored ar gael i'r holl staff addysg ledled Caerdydd a'r Fro. Rydym yn edrych ymlaen yn fawr at integreiddio mwy o becynnau hyfforddiant wyneb-yn-wyneb.

Os oes gennych ddiddordeb mewn hyfforddiant ar gyfer grwpiau staff cyfan neu staff penodol yn eich lleoliad unigol, trafodwch hyn gyda'ch arweinydd ardal yn eich cyfarfod blaenoriaethu.

**Dyma ein rhaglen hyfforddiant mynediad agored ar-lein ar gyfer y tymor hwn - mae ar gael i holl staff addysg ledled Caerdydd a'r Fro.**

| DYDDIAD | AMSER | TEITL YR HYFFORDDIANT |
|---|---|---|
| Dydd Mercher 20/9/2023 | 13:00-16:00 | Rheoli Diwedd Cyfnod a Phontio yn Effeithiol (Gweithdy mewn person - Woodland House, Caerdydd)* |
| Dydd Llun 2/10/2023 | 15:30-17:00 | Cynllunio Diogelwch ar gyfer Staff Addysg |
| Dydd Iau 17/10/2023 | 15:30-17:00 | Rheoli Straen |
| | **HANNER TYMOR** | |
| Dydd Mawrth 7/11/2023 | 15:30-17:00 | Gwreiddio PACE yn yr ystafell ddosbarth |
| Dydd Llun 13/11/2023 | 13:30-16:30 | Coeden Bywyd (Gweithdy mewn person - Lleoliad i'w gadarnhau)* |
| Dydd Llun 27/11/2023 | 15:30-17:00 | Deall Hunan-Niwed |

* Rydym yn cynnal hyfforddiant mewn person gydag uchafswm o 18 o fynychwyr, cofrestrwch yn gyflym felly i beidio â cholli allan!

## MANYLION COFRESTRU

I archebu lle ar gyfer unrhyw ddyddiadau hyfforddiant ac i gael mwy o wybodaeth am bob un ohonynt, cwblhewch y ffurflen Microsoft drwy ddilyn y ddolen isod.

Dim ond hyn a hyn o leoedd sydd ar gael ym mhob sesiwn, felly cadwch le ymlaen llaw. Bydd manylion ymuno yn cael eu hanfon dros e-bost at fynychwyr cyn dyddiad yr hyfforddiant.

**Ffurflen gofrestru:** https://forms.office.com/e/KH8jJhYgSE

neu sganiwch y cod QR

# UCHAFBWYNTIAU'R TÎM

Rwyf wedi mwynhau fy misoedd cyntaf yn gweithio yn y Gwasanaeth Mewngymorth Ysgolion. Rwyf wedi cwrdd â chymunedau ysgol mor dosturiol a phobl ifanc sy'n wirioneddol ysbrydoledig, ac rwy'n gweithio ochr yn ochr â thîm gwych ac ymroddedig. Rwy'n edrych ymlaen yn fawr at gyfarfod, dod i adnabod ac ymuno â mwy ohonoch yn y flwyddyn ysgol nesaf.

**Dr Rhian Murphy**
Seicolegydd Clinigol

## DWYRAIN CAERDYDD
Natalie, Kirsty & Emma

Hoffai tîm Dwyrain Caerdydd ddiolch i'n holl ysgolion am weithio gyda ni dros y flwyddyn academaidd ddiwethaf. Mae wedi bod yn amser cadarnhaol o ran sefydlu perthnasau agos a dod i wybod yn iawn sut orau y gallwn helpu. Rhan allweddol o'n gwaith fu cysylltu â gweithwyr proffesiynol eraill yn eich ysgolion gan gynnwys seicolegwyr addysg, athrawon arbenigol a nyrsys ysgol. Rydym hefyd wedi mwynhau cynnal nifer o ymyriadau grŵp gyda phobl ifanc ar draws ein hysgolion yn y dwyrain yn ogystal â'r gwaith unigol rydym wedi'i wneud. Rydym yn gobeithio y cewch chi i gyd haf hamddenol ac edrychwn ymlaen at barhau â'n gwaith gyda chi y flwyddyn nesaf.

I ni, rydym mor ddiolchgar am sut mae ein hysgolion wedi ein croesawu ac wedi gwneud i ni deimlo ein bod yn rhan o'r tîm. Rydym wedi mwynhau dod i adnabod disgyblion a staff ac rydym am ddiolch i chi am ymddiried ynom i fod yn eich ysgolion. Rydym yn edrych ymlaen at flwyddyn academaidd arall gyda chi ar ôl i ni gyd fagu nerth newydd!

## GORLLEWIN CAERDYDD
Vicky, Elen & Hayley

Mae'r flwyddyn academaidd ddiwethaf hon wedi bod yn un ysgogol a phrysur i bobl y Fro. Rydym wedi mwynhau creu cysylltiadau newydd a datblygu llawer mwy o gysylltiadau a pherthnasau gwaith da o fewn yr ysgolion a'r rhwydwaith ehangach o staff addysg. Rydym wedi mwynhau'n fawr ein gwaith uniongyrchol gyda phobl ifanc ac wedi gweld rhai canlyniadau da yn ogystal â gweld y cynllun peilot mentoriaid cyfoedion yn parhau i ddwyn ffrwyth. Rydym yn edrych ymlaen at wella eto fyth y flwyddyn nesaf.

## BRO MORGANNWG
Angie, Carolyn & Leanne

Rydym yn teimlo'n ffodus iawn o fod wedi cael croeso mor gynnes gan bob darpariaeth, ac mae gweld unigrywiaeth pob lleoliad wedi bod yn hyfryd. Rydym wedi gwerthfawrogi'r didwylledd, y gonestrwydd a'r bregusrwydd sydd wedi'u rhannu wrth ystyried anghenion nid yn unig y dysgwyr ond hefyd eu teuluoedd. Rydym wedi gweld ymroddiad helaeth ac awydd i uwchsgilio timau yn ogystal â chynnal lles emosiynol staff fel rhan annatod o'u hethos. Rydym yn edrych ymlaen at gydweithio ar ddatblygiadau newydd, ochr yn ochr â'n gilydd yn y tymor ysgol newydd.

## AHY AC UCD
Lisa, Elin & Chloe

Ewch i https://cavyoungwellbeing.wales/cy/
i gael gwybodaeth am Les Emosiynol ac Iechyd Meddwl ac adnoddau ar y rheiny i blant, pobl ifanc, rhieni a gweithwyr proffesiynol